

Negeseuon allweddol

Negeseuon

Y protocol cymorth ariannol a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i amlygu gwaith landlordiaid cymdeithasol drwy gydol y cyfnod i gefnogi tenantiaid.

Mae CHC yn defnyddio ymgyrch #GydaChi #WithYou i roi sylw i'r gwaith hwn a byddem yn hynod falch pe byddai aelodau yn rhannu ein negeseuon drwy eu llwyfannau cyfathrebu i ddangos y gwaith. Rydym wedi datblygu amrywiaeth o negeseuon yn gysylltiedig â'r protocol islaw.

Cefndir

- Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn gweithio ddydd a nos i sicrhau fod tenantiaid yn derbyn y cymorth a'r cyngor cywir ar yr adeg gywir.
- Gwnaeth landlordiaid cymdeithasol gyfres o ymrwymïadau cenedlaethol fydd yn sicrhau fod tenantiaid yn ddiogel a saff yn eu cartrefi ac yn derbyn cyngor ariannol a chymorth drwy gydol yr argyfwng hwn.
- Os ydych yn denant cymdeithas tai sy'n wynebu anawsterau, cysylltwch â'ch landlord os gwelwch yn dda. Mae mwy o wybodaeth ar ymrwymïadau cymdeithasau tai a lle i gael mynediad i gymorth ar gael yn: <https://chcymru.org.uk/en/coronavirus-resources-for-housing-associations/supporting-tenants-through-the-crisis/>

Ymrwymïadau

Beth bynnag yr ydych yn mynd drwyddo, mae XXX [enw'r gymdeithas tai] gyda chi.

Os ydych yn wynebu anawsterau, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Rydym gyda chi drwy gydol hyn.

Byddwn yn:

- eich cadw yn ddiogel a saff yn eich cartref
- eich helpu i gael y cymorth ariannol rydych ei angen
- gwneud popeth a fedrwn i gefnogi eich llesiant
- eich cefnogi i ganfod datrysiadau os ydych yn cael anhawster talu eich rhent

Mae XXX wedi ymrwymo i sicrhau y caiff tenantiaid gymorth drwy gydol yr argyfwng.

Negeseuon protocol

Rydym gyda chi drwy galedi ariannol

- Mae hyn yn golygu na chaiff neb eu troi allan o'u cartrefi fel canlyniad i galedi ariannol a achoswyd gan COVID-19
- Byddwn yn dal i weithio i atal unrhyw ddadfeddiannu rhag troi'n ddigartrefedd

Rydym gyda chi, yn darparu cymorth ariannol pan ydych ei angen

- Cymorth i ganfod eich ffordd drwy'r system llesiant a chael mynediad i'r Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill y mae gan bobl hawl iddynt
- Eich cefnogi i gael mynediad i daliadau argyfwng i dalu am eich costau ynni
- Darparu parseli bwyd argyfwng neu eich cefnogi i gael mynediad i wasanaethau tebyg i fanciau bwyd
- Eich cefnogi i gael mynediad i grantiau argyfwng eraill a chymorth a all fod ar gael
- Sicrhau na chewch eich gadael gyda dyledion cysylltiedig â thai na fedrwch ymdopi â nhw

Rydym gyda chi os oes angen i chi ganfod datrysiadau i dalu eich rhent

- Rydym yma i helpu ac mae gennym staff a all eich cefnogi drwy'r cyfnod anodd yma.
- Lle mae pobl yn cael anawsterau ariannol, byddwn yn gwrandao, cynghori a'ch cefnogi i wneud trefniadau addas, fforddiadwy a hylaw ar gyfer yr hirdymor i dalu eich rhent.

Rydym gyda chi i helpu gyda'ch llesiant

- Byddwn yn rhoi mynediad digidol i wasanaethau cymunedol a chymorth i gadw tenantiaid a staff yn ddiogel
- Byddwn yn rhoi cymorth i chi gael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd cymunedol eraill
- Byddwn yn creu grwpiau ar-lein a galwadau ffôn i holi am eich llesiant a'ch cefnogi os ydych yn unig neu wedi ynysu
- Byddwn yn cysylltu'n rheolaidd gyda'n tenantiaid mwyaf bregus i sicrhau y gallant gael mynediad i'r cymorth sydd ar gael